**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar STEM

Cyfarfod am 18.30 ddydd Mawrth 2 Gorffennaf, Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel

## COFNODION

**Yn bresennol**

David Rees AC (yn y gadair), Nick Ramsay AC a Mark Isherwood AC.
Aelodau allanol: Tom Addison (Y Gymdeithas Ffisiolegol); Dr Stephen Benn (Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol); Emily Bristow (Blue Prism); yr Athro Michael Charlton (Cymdeithas Ddysgedig Cymru); Dr Luci Collinwood (Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru); Dr David Cunnah (Sefydliad Ffiseg); Dr Sharon Davis (Y Brifysgol Agored); Dave Jones (Y Gymdeithas Ddaearegol); Matt Jones (Sefydliad y Peirianwyr Sifil); Helen Obee-Reardon (Prifysgol Caerdydd); Wendy Sadler MBE, Science Made Simple; yr Athro Keith Smith (Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol); Niall Sommerville (Darpar Gydgysylltydd y Grŵp) a Leigh Jeffes (Cydgysylltydd y Grŵp)

**Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys y siaradwyr gwadd, sef Emily Bristow (Blue Prism) a Luci Collinwood (Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru), yn ogystal â Niall Sommerville, Rheolwr Materion Cyhoeddus - Cenhedloedd Datganoledig, o'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol, a fydd yn cymryd yr awenau oddi wrth Leigh Jeffes o ran cydgysylltu gwaith y Grŵp.

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan:
Dr Dai Lloyd AC a Llyr Gruffydd AC, yn ogystal â'r cynrychiolwyr allanol Dr Robert Hoyle, Keith Jones, Cerian Angharad, yr Athro Ian Wells, yr Athro Faron Moller, Bob Cater a Dr Geertje van Keulen.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2019**

Cafodd y cofnodion hyn eu dosbarthu ymlaen llaw.
Cywiriad o dan 'Ymddiheuriadau': Emily Bristow, yn lle Emma Bristow.

**Materion yn codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Adroddiad ar ddigwyddiad 'Gwyddoniaeth a'r Cynulliad' ar 4 Mehefin 2019**

Soniodd Leigh Jeffes am ddigwyddiad blynyddol y Gymdeithas Gemeg Frenhinol. Diolchodd i'r Cadeirydd a'r Is-gadeiryddion am noddi'r digwyddiad gyda'r nos a siarad ynddo ynghyd â'r Gweinidog Addysg.

Llwyddodd y digwyddiad i ddenu cynulleidfa deilwng, gan gynnwys arddangosfa lawn a rhaglen ardderchog o siaradwyr. Diolchodd Leigh i'r sefydliadau partner am helpu i wneud y diwrnod yn llwyddiant ac i'r Prif Gynghorydd Gwyddonol a'i dîm am gynnal y ddarlith cenedlaethau'r dyfodol gyntaf yn nigwyddiad *Gwyddoniaeth a'r Cynulliad*, a oedd yn ddechrau arbennig iddo. Cynhelir y digwyddiad ar ei newydd wedd, sef *Gwyddoniaeth a'r Senedd,* ddydd Mawrth 19 Mai 2020.

**Pynciau i'w trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol**

Bydd Sarah Jones, Cyn-gadeirydd Sefydliad y Peirianwyr Sifil yng Nghymru, yn rhoi cyflwyniad i ddiogelwch niwclear yn y cyfarfod ar 5 Tachwedd. Mae Sarah yn Brif Beiriannydd Sifil yng Ngorsaf Ynni Niwclear Hinckley C.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer pynciau trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol yn cynnwys: seiberddiogelwch/cydweithio rhwng y byd academaidd a diwydiant. Bydd y grŵp, gyda chymorth Niall, yn llunio rhaglen waith ar gyfer 2020.

**Cymdeithasau gwyddonol a chyrff proffesiynol - y wybodaeth ddiweddaraf**

Rhoddodd cynrychiolwyr y wybodaeth ddiweddaraf am eu gweithgareddau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

**Adroddiad gan Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru**

Rhoddodd Dr Luci Collinwood, Uwch Swyddog Gwyddoniaeth, y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddatblygiadau ar hyn o bryd.

Yn dilyn sesiwn holi ac ateb, diolchodd y Cadeirydd i Luci am ei chyflwyniad.

**Cyflwyniad: Emily Bristow, Cyfarwyddwr Llwyddiant Cwsmeriaid, Blue Prism**

Siaradodd Emily am awtomeiddio a'r ffordd y bydd robotiaid yn trawsnewid y gweithle.

Yn dilyn sesiwn holi ac ateb, diolchodd y Cadeirydd i Emily am ei chyflwyniad.

**Unrhyw fater arall**
Diolchodd y Cadeirydd i Leigh Jeffes am gydlynu gwaith y grŵp. Dywedodd Leigh ei bod wedi bod yn bleser rheoli'r grŵp trawsbleidiol, a diolchodd i'r Cadeirydd, i Gadeiryddion blaenorol ac i aelodau am eu cefnogaeth yn ystod yr 11 mlynedd diwethaf.
Cadarnhaodd y byddai'n parhau i drefnu'r digwyddiad 'Gwyddoniaeth a'r Cynulliad (Senedd)' blynyddol ar ran y Gymdeithas Gemeg Frenhinol.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**
Dydd Mawrth 5 Tachwedd am 18.30. Hwn hefyd fydd y cyfarfod cyffredinol blynyddol.

**Cloi'r cyfarfod**
Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 20.00.